**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 1af Chwefror 2017 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd P. Prendergast (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Miss S. L. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, W. N. Tasker, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**97. Y CYNGHORYDD BRIAN MOYLAN**

Cyferiodd y Cadeirydd at farwolaeth ddiweddar Cynghorydd Ward Cefndy Brian Moylan ar ôl ymladd salwch yn ddewr am gyfnod maith.

Safodd y cyfarfod ar gyfer munud o dawelwch, ac yna hysbysodd y Cadeirydd y cyfarfod o drefniadau angladd y Cynghorydd Moylan.

**98. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr I. Armstrong (yn sâl), B. Blakeley (yn sâl), Mrs W. M. Mullen-James (yn sâl) ac S. H. Ratcliffe (yn sâl).

**99. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**100. DATBLYGIAD ARFAETHEDIG AR Y PROMENAD**

Croesawodd y Cadeirydd Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, y Cynghorydd Hugh Evans, y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Ms Rebecca Maxwell a'r Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai, Mr Jamie Groves i'r cyfarfod a'u gwahodd i annerch yr Aelodau ar y cynigion diweddaraf ar gyfer canolfan acwatig ar y Promenâd.

Dywedodd Mr Groves:

- Bod Cyngor Sir Ddinbych ddoe wedi cymeradwyo'r cynnig parc dŵr a oedd yn caniatáu i'r pwll yng Nghanolfan Hamdden y Rhyl aros ac, ymhellach, elwa ar fuddsoddiad gwerth £0.5m.
- Ni fyddai'r parc dŵr nawr yn cynnwys pwll nofio 25 medr, ac er y byddai'n lleihau maint cyffredinol yr adeilad, ni fyddai'n newid edrychiad a theimlad y lle.
- Gan fod arolwg strwythurol o danc y pwll yn y Ganolfan Hamdden wedi dangos cylch bywyd 25 mlynedd, ac i ddileu amser teithio i ddefnyddwyr

presennol, roedd yn gwneud synnwyr i gadw'r cyfleusterau 'dinesig' yn y Ganolfan Hamdden.

- Er mwyn pennu costau cyfalaf adeiladu'r parc dŵr newydd, byddai angen ymrwymiad cadarn gan y Cyngor Tref o £2f yn y deuddydd nesaf i osgoi costau deunyddiau yn codi, a fyddai'n gwthio'r gost gyffredinol i fyny'n arwyddocaol.
- Heb ymrwymiad cadarn y Cyngor Tref nid oeddynt mewn sefyllfa i gwblhau achos busnes y prosiect cyfan, a fyddai'n golygu na fedrent gyflawni'r amserlen gynllunio mewn pryd i agor y cyfleusterau erbyn y Pasg 2019.
- Roeddynt yn gwerthfawrogi cyflymder y cynigion ac nad oedd y brys i gael ateb i'r cais am gyfraniad arwyddocaol gan y Cyngor Tref yn ddelfrydol, ond gobeithid eu bod wedi rhoi digon o esboniad ynglŷn â hynny?
- Roedd eu cais am £800k pellach gan Lywodraeth Cymru yn edrych yn addawol.
- Byddai'r parc dŵr newydd yn unigryw yng Nghymru.

Ychwanegodd Ms Maxwell bod y buddsoddiad o £15.4m yn ymwneud ag adfywiad y Rhyl a'i datblygiad economaidd yn gyffredinol. Disgwylir y bydd y parc dŵr yn denu oddeutu 350,000 o ymweliadau ychwanegol â'r Rhyl bob blwyddyn, a gyda'r parc dŵr yn cynnig adloniant hanner diwrnod, rhagwelwyd y byddai llawer o'r ymwelwyr hyn yn gadael yr adeilad a chael eu temptio i wario ar y Stryd Fawr a thu hwnt.

Dywedodd y Cynghorydd Evans bod y cynnig yn ymarferol ac yn gynaliadwy, ar ôl mynd trwy brofion llym amrywiol. Teimlai y byddai peidio â symud ymlaen â'r cynllun yn risg hirdymor mwy i'r Rhyl a Sir Ddinbych na symud ymlaen, ac anogodd y Cyngor Tref i gynnig ei ymrwymiad cadarn dros yr ychydig ddyddiau nesaf.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r Aelodau, dywedodd y Cynghorydd Evans, Rebecca Maxwell a Mr Groves:

- I ddechrau roedd symud y pwll yn y Ganolfan Hamdden yn gyfle i greu lle ar gyfer gwell cyfleusterau ffitrwydd a newid am gost o £0.5m. Ar ôl ystyried y mater ymhellach, cafwyd y byddai'n rhatach gadael y pwll lle'r oedd a byddai'n bosibl o hyd gwneud y gwelliannau hynny. Cynnig llawer gwell.
- Nid oedd y ffioedd mynediad a adroddwyd yn rhifyn heddiw y Daily Post yn cymryd i ystyriaeth y disgownt a fyddai'n berthnasol i rai gyda Cherdyn Hamdden Sir Ddinbych, gan ei wneud yn £11 i oedolyn a £7 i blentyn am hanner diwrnod. Roedd y prisiau hyn yn berthnasol ar gyfer y flwyddyn gyfan, ac nawr yn cael eu pennu ddwy flynedd ymlaen llaw, a oedd hyd yn oed yn well o ran gwerth gan y byddai prisiau eraill wedi codi erbyn hynny.
- Roed dogfennau manylach, fel a gyflwynwyd i Gynghorwyr Sir Ddinbych ddoe, ar gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych a byddent yn rhoi hyder i'r Cynghorwyr Tref na fyddai eu cyfraniad yn mynd tuag at 'Bentref y Plant' arall.
- Roedd swyddogion CSDd wedi rhoi cymaint o help i'r Cyngor Tref ag y medrent a byddant yn rhannu darluniau technegol newydd o'r prosiect cyn gynted ag y byddent wedi eu derbyn.
- Gan mai CSDd a fyddai'n benthyg y £2f, ac nid y Cyngor Tref, roedd yr cyfrifoldeb arnyn' nhw i ymgymryd â'r lefel ofynnol o ymgynghori â'r cyhoedd, nid y Cyngor Tref, ond wrth gwrs dylai'r Cyngor Tref rannu gwybodaeth gyda thrigolion y Rhyl fel y gwelai'n briodol.

Awgrymwyd bod swyddogion CSDd yn gadael Siambr y Cyngor i roi cyfle i'r Cyngor Tref ddod i benderfyniad, ac yna fe wahoddid y swyddogion yn ôl i'r Siambr i glywed y canlyniad.

Gadawodd Aelod a swyddogion CSDd y Siambr.

Yna cafwyd trafodaeth ar yr angen am beth sicrhad, pe byddai'r parc dŵr yn cael ei drosglwyddo i gyfundrefn trydydd parti yn nes ymlaen, o ystyried yr anawsterau a gafwyd gyda'r Heulfan; hefyd ynglŷn â £2f y Cyngor Tref yn cael ei wario ar y prosiect hwn yn unig ac nid yn cael ei drosglwyddo i rywle arall, ac yn olaf ar bob datganiad i'r wasg yn cael ei baratoi ar y cyd rhwng CSDd a'r Cyngor Tref.

Cyfeiriodd yr Aelodau at ychydig o sylwadau negyddol yn y cyfryngau cymdeithasol ar y prosiect, ond gwnaed y pwynt eu bod nhw yn bersonol wedi derbyn sylwadau llawer mwy cadarnhaol.

Teimlai'r Aelodau y byddai cael dau Gynghorydd Tef ar Fwrdd Prosiect CSDd hefyd yn fanteisiol er mwyn cael adroddiadau rheolaidd yn ôl i'r Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau'n pleidleisio'n unfrydol o ran rhoi ymrwymiad cadarn o £2f ynghyd â llogau tuag at y parc dŵr yn amdol ar y sicrhad a'r amodau canlynol:*

*(i)* *Bod cyfraniad y Cyngor Tref yn mynd tuag at adeiladu'r parc dŵr a ddim yn cael ei drosglwyddo i rywle arall.*
*(ii)* *Bod y Cynghorwyr A. J. Rutherford a Miss S. L. Roberts yn cael eu penodi i Fwrdd Prosiect CSDd.*
*(iii)* *Pe byddai gweithrediad y parc dŵr yn cael ei drosglwyddo o CSDd i drydydd parti mewn blynyddoedd i ddod, bod y Cyngor Tref yn rhan o'r broses honno.*
*(iv)* *Bod holl gyfathrebu mewn perthynas â'r parc dŵr yn y dyfodol yn cael ei baratoi ar y cyd gan CSDd a'r Cyngor Tref, sef trwy Gunsmoke Communications.*
*(v)* *Bod gan y Cynghorwyr Tref bresenoldeb ym mhob un o sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol, cynllunio neu fel arall.*

Gwahoddwyd y Cynghorwyr Evans, Ms Maxwell a Mr Groves yn ôl i Siambr y Cyngor Tref a'u hysbysu o'r uchod. Cytunodd cynrychiolwyr y Sir gyda'r cyfan.

Diolchodd Ms Maxwell i'r Cyngor Tref am ei gymorth a'r penderfyniad cyflym, a oedd nawr yn eu galluogi i gyflwyno'r holl ddogfennau angenrheidiol i gydymffurfio â'r amserlen.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fynychu cyn iddynt adael y Siambr.

Yna dosbarthodd Clerc y Dref ddau opsiwn yr oedd ef a'r Swyddog Cyllid wedi eu hystyried fel dulliau posibl o godi'r £2f ynghyd â llogau.

Dywedodd Clerc y Dref ei bod yn gwneud synnwyr i ail-ddyrannu rhai o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ac unrhyw danwariant o 2016/17 i sefydlu un taliad unwaith ac am byth i leihau llogau ar unrhyw ofynion benthyca yn y dyfodol. Byddai hyn yn cael ei ddilyn gan arolwg o holl gyllidebau presennol y Cyngor Tref, ac ail-ddyrannu unrhyw arbedion a adnabuwyd tuag at gyfraniadau

blynyddol gofynnol y Cyngor, a fyddai, gobeithio, yn lleihau faint sydd angen ei godi gan gynnydd ym mhraesept y Cyngor.

Unwaith y byddai lefel y cyllid roedd ei angen o’r braesept wedi ei sefydlu, byddai angen wedyn i’r Cyngor benderfynu a ddylid cynyddu’r braesept ar unwaith i godi’r diffyg gofynnol mewn cyllid (opsiwn 1) neu fel arall, ei gyflwyno’n raddol dros nifer o fynyddoedd gan ddefnyddio cronfeydd cyffredinol y Cyngor (opsiwn 2). Dywedodd Clerc y Dref pe byddai opsiwn 2 yn cael ei weithredu, yna byddai angen hefyd i’r Cyngor gytuno a gweithredu cynllun ariannol i ddychwelyd Cronfeydd Cyffredinol y Cyngor Tref i’r lefel ofynnol.

***PENDERFYNWYD*** *mai cynnydd graddol yng nghyfran y Cyngor Tref o’r Dreth Gyngor i godi’r arian gofynnol i wneud y cyfraniadau blynyddol i CSDd oedd dewis yr Aelodau.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dre ymateb fel mater o frys.*

**101. SESIWN AGORED**

Ar ddiwedd yr eitem uchod, ***PENDERFYNWYD*** bod y cyfarfod yn parhau mewn sesiwn agored

**102. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – RHAGFYR 2016**

Gyda chytundeb yr Aelodau, gohiriodd y Cadeirydd yr eitem uchod i gyfarfod nesaf y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio’r eitem i gyfarfod mis Chwefror y Cyngor.*

**103. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN RHAGFYR 2016 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2016/17.**

Gyda chytundeb yr Aelodau, gohiriodd y Cadeirydd yr eitem uchod i gyfarfod nesaf y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio’r eitem i gyfarfod mis Chwefror y Cyngor.*

**104. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU HYD AT 31AIN RHAGFYR 2016**

Gyda chytundeb yr Aelodau, gohiriodd y Cadeirydd yr eitem uchod i gyfarfod nesaf y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio’r eitem i gyfarfod mis Chwefror y Cyngor.*

**105. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – B5118 RHODFA'R GORLLEWIN A MARINE DRIVE, Y RHYL**
**(1.) GORCHYMYN (GWAHARDD PARCIO DROS NOS) (CARAFANAU A CHARAFANAU MODUR) 201**
**(2.) HYSBYSIAD O DALU AC ARDDANGOS ARFAETHEDIG AR BARCIO AR Y STRYD**

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn yr uchod, i'r aelodau ei ystyried (dosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y Gorchymyn.*

**106. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 17 PARC ESMOR**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am farn y Cyngor Tref ar gynlluniau i ddileu'r llwybr troed uchod nad oedd modd ei ddefnyddio am y 40 blynedd diwethaf ac nad oes ei angen bellach.

Dywedodd Clerc y Dref bod Cynghorydd y Ward wedi cadarnhau nad oedd y llwybr troed yn bodoli.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor Tref yn cytuno gyda dileu'r llwybr troed.*

**107. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL INTERIM**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r Aelodau ei ystyried yn ffurfiol.

***PENDERFYNWYD*** *cyfeirio'r adroddiad at Is-bwyllgor Asesu Risg y Cyngor i'w ystyried ac i wneud argymhellion.*

**108. GOHEBIAETH: CYFOETH NATURIOL CYMRU – WARDENIAID LLIFOGYDD**

Gyda chytundeb yr Aelodau, gohiriodd y Cadeirydd yr eitem uchod i gyfarfod nesaf y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio'r eitem i gyfarfod mis Chwefror y Cyngor.*

**109. EITEMAU ER GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd materion brys i'w codi.

**110. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**111. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

## 112. <u>TERFYNU'R CYFARFOD</u>

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:…………………..

Dyddiad:………………………